Mae’r newydd yn drech na’r llwyddiannus: fel arfer caiff mentrau eu hariannu drwy broses gynnig. Mae’r broses gynnig ynddo’i hun yn defnyddio capasiti. Yn ogystal â hyn, nododd llawer o aelodau nyrsio cymunedol RCN Cymru na allant dderbyn cyllid mwyach ar gyfer gwaith prif-ffrwd a brofwyd ei fod yn llwyddiannus, dim ond ar gyfer cynlluniau newydd nas profwyd neu ar gyfer ‘ail-enwi’ yr hen fel newydd.

Diffyg gwerthuso a phrif ffrydio: os yw model gweithio penodol yn llwyddiannus yna dylid ei ariannu’n gynaliadwy.

Diffyg cynllunio olyniaeth: pan fydd nyrs arbenigol yn gadael, yn rhy aml ni ellir llenwi’r swydd neu caiff y swydd ei ddiddymu, gan arwain at golli gwasanaeth a cholli unrhyw welliant o ran effeithlonrwydd.

Dat-sgilio nyrsio cymunedol: gellir tynnu staff o dimau nyrsio

Nyrsys Ardal

Dylai Llywodraeth Cymru, AaGIC a GIG Cymru gydweithio i gynyddu nifer y

proffesiynol eraill, gofalwyr a staff ysgol.

Mae Ffigur 3 yn amlygu nifer y modiwlau cyn ac ar ôl cofrestru ar gyfer nyrsys plant a gomisiynwyd a modiwlau ar ôl cofrestru. Mae'r ffigur yn dangos hefyd nifer y Nyrsys Plant Cymunedol, yn ôl Ystadegau Cymru.

Mae RCN Cymru yn falch o weld cynnydd mewn lleoedd nyrsio plant cyn cofrestru ar gyfer 2021/2022 ond mae'n annog Llywodraeth Cymru i fuddsoddi yn fwy yn y maes nyrsio hwn i sicrhau y gellir bodloni anghenion plant. At hynny, o'r llinell